Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Dewis ehangach a'r craidd dysgu

## – cynnydd wrth weithredu dewis ehangach o opsiynau a'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 oed

Iechyd ar Waith

Cyrraedd y Nod

The Corporate Standard

Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Green Dragon Environmental Standard

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

AWST 2010

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; a
- darpariaeth cyflogaeth wedi'i chontractio yng Nghymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif Ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **Llwybrau Dysgu:  dewis ehangach a hyblygrwydd** | **8** |
| Cynnydd yng nghyfnod allweddol 4 | 8 |
| Cynnydd yn y sector ôl-16 | 10 |
| Materion cyffredin yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 | 11 |
| Cynllunio darpariaeth gydweithredol | 12 |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 13 |
| Dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol | 13 |
| **Llwybrau Dysgu:  y craidd dysgu** | **15** |
| Medrau | 15 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth | 16 |
| Agweddau a gwerthoedd | 16 |
| Profiadau cyffredin | 17 |
| **Atodiad** | |
| Rhoi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar waith yng nghyfnod allweddol 4 | |

## Cyflwyniad

1 Lluniwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn adroddiad cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2009-2010. Mae'r adroddiad yn arfarnu cynnydd wrth roi dewis ehangach a hyblygrwydd (Elfen 2) a hawl i'r craidd dysgu (Elfen 3) Llwybrau Dysgu 14-19[1] ar waith.

2 Mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar ddadansoddiad o gynlluniau strategol tair blynedd yr holl rwydweithiau 14-19[2] ar gyfer 2010-2013, ymweliadau â deg o rwydweithiau 14-19, ymatebion i holiaduron a anfonwyd i rwydweithiau eraill a data ar yr opsiynau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

3 Mae'r adroddiad yn dilyn adroddiad Estyn ar ddewis a hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr 14-19 a gyhoeddwyd ym Mawrth 2008.[3]

## Cefndir

4 Yn 2001, ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' i sicrhau deilliannau gwell mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a dysgu yn y gwaith, a gosododd nod, sef y bydd **'95 y cant o bobl ifanc erbyn iddynt fod yn 25 oed yn barod ar gyfer cyflogaeth medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015.'**

5 Yng Ngorffennaf 2004 ac Ebrill 2006, cyhoeddwyd Llwybrau Dysgu Arweiniad I a II gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n amlinellu disgwyliadau i drawsnewid darpariaeth ar gyfer dysgwyr 14-19. Nod y polisi yw ymestyn y dewis a'r hyblygrwydd i ddysgwyr trwy ddarparu llwybrau dysgu unigol ar eu cyfer a fydd yn bodloni eu hanghenion. Ei nod hefyd yw darparu cyfleoedd a phrofiadau a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r medrau ehangach sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith, a'r cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen i'w helpu i gyrraedd eu potensial.

6 Canfu adroddiad Estyn ar ddewis a hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr 14-19 fod:

- dewis mewn ysgolion a cholegau yn cynyddu, ond bod cyfleoedd i ddysgwyr yn dibynnu ar yr hyn a oedd yn cael ei gynnig yn eu hysgol neu'u coleg;
- yng nghyfnod allweddol 4, roedd cynnydd wedi bod yn y cyrsiau lefel mynediad neu lefel 1 a gynigir, ond bach oedd y cynnydd yn nifer y cyrsiau lefel 2;
- roedd llawer o ysgolion yn gweld bod cyrsiau galwedigaethol yn addas ar gyfer dysgwyr llai abl yn unig;

[1] Llwybrau Dysgu 14-19 Arweiniad II. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006.
[2] Grwpiau o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal awdurdod lleol yw rhwydweithiau 14-19.
[3] http://estyn.co.uk/ThematicReports/0308_Learning_Pathways_Report.pdf

- roedd llawer o ysgolion yn amharod i gynnig cyrsiau galwedigaethol gan nad oedd y rhain yn cyfrannu at y dangosydd perfformiad allweddol o bum gradd A* i C mewn TGAU;
- roedd llawer o ddewislenni yng nghyfnod allweddol 4 wedi'u seilio ar fodel ar gyfer cwricwlwm eang a chytbwys, a lleiafrif o ysgolion yn unig a oedd yn ceisio bodloni dyheadau Llwybrau Dysgu;
- yn y sector ôl-16, roedd y rhan fwyaf o ehangu cyfyngedig o ran cyrsiau yn digwydd ar gyrsiau lefel 2 ar gyfer dysgwyr gallu canolig i allu is;
- cyfyngedig oedd y cydweithio rhwng darparwyr, yn enwedig yn y sector ôl-16;
- roedd y rhan fwyaf o ddatblygiadau wedi deillio o gyllid grant yn hytrach na chyllid prif ffrwd;
- ni roddwyd digon o sylw i hawl y dysgwyr;
- roedd tensiwn rhwng yr angen i gydweithio a'r trefniadau cyllid a llywodraethu sy'n canolbwyntio ar ddarparwyr annibynnol, unigol; ac
- nid oedd y rhwydweithiau yn cynnwys systemau ar gyfer sicrhau ansawdd sy'n dod i gasgliadau am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth.

7 Derbyniodd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ('y Mesur') gymeradwyaeth frenhinol ym Mai 2009. Rhaid i bob ysgol uwchradd prif ffrwd a gynhelir gydymffurfio â darpariaethau rhan 1 (cyfnod allweddol 4) erbyn Medi 2010. Nid yw'n ofynnol cydymffurfio â darpariaethau rhan 2 (ôl-16) eto. Nod y Mesur yw sicrhau bod y dewis ehangaf posibl ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ac mewn colegau. Mae'n darparu hawl gyfreithiol-rwym ar gyfer dysgwyr 14-19 i isafswm penodol o gyrsiau y maent yn dewis eu llwybr dysgu unigol ohonynt, gan gynnwys y craidd dysgu. Nid yw cyfle i fanteisio ar wasanaethau cymorth, gan gynnwys swyddogaeth yr anogwr dysgu yn hawliau sy'n ofynnol gan y Mesur, ond maent yn ddisgwyliad, ac fe'u disgrifir yn y ddogfen Llwybrau Dysgu: Canllawiau 14-19.

8 Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4, a chynorthwyo'r Gweinidog i sefydlu cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr ôl-16. Bydd y cwricwla lleol hyn yn cynnwys ystod eang o opsiynau academaidd a galwedigaethol. Erbyn 2012, rhaid i bob un o'r cwricwla lleol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 gynnig o leiaf tri deg o gyrsiau, a rhaid i bump o'r rhain fod yn gyrsiau galwedigaethol cymwys. Yng nghyfnod allweddol 4, dylai'r cyrsiau galwedigaethol hyn fod ar lefel 2 ac, yn y sector ôl-16, dylent fod hyd at lefel 3. Wrth gynllunio cwricwla lleol, dylai rhwydweithiau sicrhau bod llwybrau dilyniant ar gael o gyfnod allweddol 4 i'r sector ôl-16.

9 Mae'r gofynion hyn yn cael eu rhoi ar waith yn raddol, a dyrannwyd band i ardaloedd awdurdodau lleol am yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r Atodiad yn rhoi manylion am y bandiau a'r gofynion.

10 Dylai'r opsiynau fod o'r pum **parth** dysgu, sef:

- mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg;
- busnes a rheoli;
- gwasanaethau i bobl;
- y celfyddydau creadigol a diwylliant; a'r
- dyniaethau ac ieithoedd.

11 Mae'r craidd dysgu yn nodi'r medrau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y bydd eu hangen ar ddysgwyr 14-19 beth bynnag fo'u dewis o lwybr dysgu. Mae'r agweddau ar ddysgu a amlinellir yn y craidd dysgu yn cynnwys y gofynion a'r gwelliannau lleiaf. Mae'r craidd dysgu yn ymwneud â dysgu ehangach sy'n cynnwys medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd, a phrofiadau cyffredin. Yn Llwybrau Dysgu II, mae'r rhain fel a ganlyn:

| **Medrau** | **Gwybodaeth a dealltwriaeth** | **Agweddau a gwerthoedd** | **Profiadau cyffredin** |
|---|---|---|---|
| Medrau allweddol | Cymru, Ewrop a'r Byd | Parch atoch chi eich hun, at eraill ac amrywiaeth | Profiad â ffocws gwaith |
| Medrau Cymraeg | Materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd | Cyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd. | Cyfleoedd cyfranogiad cymunedol |
| Medrau sy'n gysylltiedig â gwaith | Arweiniad ar yrfaoedd ac addysg | | Profiadau diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol |

12 Yn 2008, cyhoeddwyd y polisi 'Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'[4] gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Arweiniodd y polisi hwn at sefydlu partneriaethau dysgu i ddatblygu cynlluniau i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16. Nid yw'r polisi yn nodi'r strwythurau sydd eu hangen i gyflwyno'r ddarpariaeth, ond mae'n herio awdurdodau lleol i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac effeithlon.

[4] Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru Hydref 2008 – polisi i drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## Prif ganfyddiadau

13 Gwnaed llawer o gynnydd wrth ehangu'r dewis ar gyfer dysgwyr ac mewn darparu'r craidd dysgu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Gall dysgwyr nawr ddewis o nifer gynyddol o gyrsiau. Mae mwy o gydweithio rhwng darparwyr hefyd. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae nifer o ddiffygion o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gormod o amrywiad yn ystod a nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr mewn gwahanol ardaloedd;
- gormod o gyrsiau y mae eu hyfywedd yn gyfyngedig oherwydd eu bod yn denu niferoedd bach o ddysgwyr yn unig a/neu'n dyblygu darpariaeth sydd ar gael rhywle arall yn yr un dalgylch;
- diffyg cyngor diduedd ar adegau allweddol pan fydd dysgwyr yn gwneud dewisiadau;
- dim digon o arfarnu ansawdd, deilliannau, effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd y ddarpariaeth; a
- chynaliadwyedd amheus llawer o gyrsiau galwedigaethol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu darparu ar y cyd.

**Cynnydd yng nghyfnod allweddol 4**

14 Mae nifer ac ystod y cyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ar lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4 wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fe wnaeth bron pob ysgol fodloni gofynion y Mesur ar gyfer Medi 2009. Erbyn Medi 2010, bydd pob ysgol yn bodloni'r gofyniad lleiaf ar gyfer eu band penodol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion eisoes yn bodloni gofynion lleiaf y Mesur ar gyfer 2012. Fodd bynnag, prin neu brin digon y mae un o bob pum ysgol yn bodloni'r gofyniad lleiaf.

15 Mae nifer gynyddol y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae nifer y cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael ar lefel 1 a lefel 2 wedi cyfrannu at welliannau mewn cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad. Mae cyrsiau galwedigaethol newydd mewn adeiladu, cynnal a chadw cerbydau, peirianneg, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau salon, er enghraifft, ond dim digon mewn busnes a rheoli.

16 Mae'r rhan fwyaf o'r cydweithio yn y cyfnod allweddol hwn rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith lleol sy'n gallu darparu cyfleusterau arbenigol neu arbenigedd ar gyfer cyrsiau na all ysgolion eu cynnig. Mae'r cyrsiau hyn fel arfer yn ddrud i'w cynnal. Grantiau[5] sydd wedi ariannu'r ddarpariaeth newydd hon yn bennaf, yn hytrach na chyllid prif ffrwd, ac mae cynaliadwyedd y ddarpariaeth newydd yn amheus yn y tymor hwy.

[5] Grantiau i rwydweithiau i gefnogi eu Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol.

### Cynnydd yn y sector ôl-16

17 Ym mhob rhan o Gymru, gall dysgwyr ôl-16 ddewis o nifer ac ystod eang o gyrsiau, ar yr amod eu bod yn barod i symud i sefydliad arall i astudio.

18 Dim ond mewn rhai achosion y mae ysgolion a cholegau yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae darparwyr wedi cytuno ar drefniadau ariannu a llywodraethu ar y cyd, maent yn rhannu amserlenni ac wedi gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer cefnogi dysgwyr. Er bod y rhan fwyaf o'r darparwyr hyn wedi sefydlu systemau olrhain mewnol i fonitro cynnydd dysgwyr ar gyrsiau a gynhelir yn rhywle arall, nid ydynt yn gwneud digon i arfarnu ansawdd a hyfywedd y ddarpariaeth ar gyfer eu dysgwyr pan fyddant mewn darparwyr eraill.

19 Nid yw ysgolion bob amser yn rhoi cyngor diduedd i ddysgwyr pan fyddant yn dewis eu hopsiynau. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd dysgwyr yn dewis yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig yn hytrach na dewis astudio yn rhywle arall. Mae llawer o ysgolion sydd â darpariaeth chweched dosbarth yn amharod i gydweithio gyda darparwyr eraill oherwydd pryderon dros y golled bosibl mewn niferoedd yn y chweched dosbarth. Mae rheolwyr yn ofni y byddai colli niferoedd yn effeithio ar gyllid y pen a byddai hyn yn lleihau eu gallu i gadw athrawon.

### Cynllunio darpariaeth gydweithredol

20 Gall colegau addysg bellach ac ysgolion, ac ysgolion gydag ysgolion eraill, gydweithio'n ffurfiol nawr trwy sefydlu cydbwyllgorau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau o'r fath wedi cael eu gwneud eto.

21 Er bod cynyddu'r cydweithio rhwng darparwyr yn y sector ôl-16 yn brif flaenoriaeth ar gyfer rhwydweithiau 14-19, prin yw'r rhwydweithiau sydd wedi sefydlu prosesau sicrhau ansawdd ar y cyd, neu systemau ar gyfer rhannu data i olrhain cynnydd dysgwyr, neu arfarniad ar y cyd o effaith y ddarpariaeth gydweithredol.

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

22 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bodloni'r gofynion ar gyfer nifer y cyrsiau sy'n ofynnol gan y Mesur ar gyfer cyfnod allweddol 4. Nod y rhan fwyaf o rwydweithiau 14-19 yw cynyddu nifer y cyrsiau ar gyfer dysgwyr Cymraeg trwy ddatblygu cyrsiau dwyieithog mewn colegau addysg bellach neu drwy gydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg.

23 Mae rhai rhwydweithiau wedi sefydlu trefniadau cydweithredol ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Gwneir defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddarparu deunyddiau addysgu, dysgu ac asesu, yn enwedig ar draws rhwydweithiau gogledd Cymru. Er hynny, mewn llawer o rannau o Gymru, mae darpariaeth y cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg sydd angen cyfleusterau arbenigol yn parhau i fod yn annigonol. Mae prinder tiwtoriaid Cymraeg yn rhwystro dilyniant i gyrsiau colegau addysg bellach yn y sector ôl-16 o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

### Dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol

24 Mae'r ddarpariaeth o ran dysgu sydd heb fod yn ffurfiol[6] a dysgu anffurfiol[7] yn nodwedd dda neu ragorol mewn llawer o ysgolion a cholegau. Mae bron pob ysgol a choleg yn cynnig gweithgareddau sydd heb fod yn ffurfiol fel Gwobr Dug Caeredin, tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae darparwyr hefyd yn cynnig profiadau dysgu anffurfiol amrywiol a diddorol i ddysgwyr sy'n cynnwys gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, ac ymweliadau addysgol. Mae'r gweithgareddau cyfoethogi hyn yn cyfrannu tuag at ffeiliau cynnydd, curriculum vitae ac at ddyfarnu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

### Y craidd dysgu

25 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau yn cynllunio ac yn cyflwyno'r craidd dysgu yn effeithiol, er nad yw mwyafrif o ddysgwyr ar leoliadau gwaith estynedig neu gyrsiau cydweithredol eraill bob amser yn cael eu hawl lawn. Mae'r craidd dysgu yn effeithiol iawn lle mae dysgwyr yn cymryd rhan ym Magloriaeth Cymru. Mae nifer y darparwyr sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 yn cynyddu gan fod darparwyr yn ei hystyried yn gyfrwng delfrydol ar gyfer bodloni gofynion y craidd dysgu. Disgwylir i nifer y canolfannau sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru godi o 167 i 217 ym Medi 2010, gan olygu y bydd y dyfarniad ar gael i amcangyfrif o 7,000 o ddysgwyr ychwanegol.

26 Pan nad yw darparwyr yn cynnig Bagloriaeth Cymru, nid yw'r ddarpariaeth cystal ar gyfer y craidd dysgu. Er ei bod yn gadarn ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau allweddol, medrau Cymraeg, a phrofiad â ffocws gwaith, yn aml yn cynnwys gwendidau.

[6] Rhaglenni sy'n arwain at achrediad yw profiadau sydd heb fod yn ffurfiol ond rhai sydd fel arfer y tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
[7] Profiadau ehangach nad ydynt yn cynnwys achrediad yw profiadau dysgu anffurfiol.

## Argymhellion

Er mwyn ehangu dewis a hyblygrwydd a gwella'r craidd dysgu:

**dylai darparwyr:**

A1 weithio'n agosach gyda darparwyr eraill i uchafu dewis a hyblygrwydd;

A2 gwneud yn siwr bod pob un o'r dysgwyr yn cael cyngor diduedd pan fyddant yn gwneud dewisiadau yn 14 ac 16 oed;

A3 cyflwyno pob agwedd ar y craidd dysgu, yn enwedig medrau allweddol, medrau Cymraeg, a phrofiad â ffocws gwaith; a

A4 gwneud yn siwr bod dysgwyr sy'n mynd ar leoliadau gwaith estynedig neu'n dilyn cyrsiau cydweithredol yn derbyn eu hawl lawn i'r craidd dysgu;

**dylai rhwydweithiau:**

A5 gynllunio i wneud opsiynau lleol a threfniadau cydweithredol yn gynaliadwy;

A6 gofyn am gynllun cydweithredol gan ddarparwyr i leihau'r teithio i ddysgwyr;

A7 monitro ac arfarnu hawl dysgwyr; ac

A8 arfarnu ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth gydweithredol;

**dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A9 gefnogi'r ddarpariaeth o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ymhellach.

## Llwybrau Dysgu: dewis ehangach a hyblygrwydd

**Cynnydd yng nghyfnod allweddol 4**

27 Mae nifer ac ystod y cyrsiau galwedigaethol a gynigir ar lefel 2 wedi cynyddu ers i Estyn adrodd ar ddewis a hyblygrwydd yn 2008. Fe wnaethom adrodd bryd hynny bod cynnydd wedi bod mewn cyrsiau galwedigaethol lefel mynediad neu lefel 1 yng nghyfnod allweddol, ond mai ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn nifer y cyrsiau lefel 2, a bod llawer o ysgolion yn ystyried cyrsiau galwedigaethol yn gyrsiau sy’n addas ar gyfer dysgwyr llai abl yn unig. Er bod hyn yn ganfyddiad mewn lleiafrif o ysgolion o hyd, mae cyrsiau galwedigaethol lefel 2 yn rhan amlwg o’r holl gwricwla lleol bron erbyn hyn.

28 Yn 2008, fe ddywedom fod llawer o ysgolion yn amharod i gynnig cyrsiau galwedigaethol oherwydd nad oedd y rhain yn cyfrannu at y dangosydd perfformiad allweddol o bum gradd TGAU, graddau A* i C. Mae’r dangosyddion perfformiad diwygiedig ar gyfer cyraeddiadau cyfnod allweddol 4[8] bellach yn cynnwys y cyrsiau galwedigaethol hyn ac nid yw hyn yn rheswm mwyach pam na ddylai ysgolion gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn eu cwricwlwm.

29 Mae bron pob ysgol yn bodloni gofynion anstatudol cyfnod allweddol 4 y Mesur ar gyfer Medi 2009. Ym Medi 2010, bydd pob ysgol yn bodloni’r gofyniad statudol ar gyfer eu band penodol. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion eisoes yn bodloni gofynion lleiaf y Mesur ar gyfer 2012. Fodd bynnag, prin neu brin digon y mae un o bob pum ysgol yn bodloni’r gofyniad lleiaf.

30 Mae amrywiad o fewn rhwydweithiau 14-19, a rhyngddynt, o ran pa mor dda y maent yn bodloni gofynion y Mesur. Mewn naw rhwydwaith, mae pob un o’r ysgolion eisoes yn bodloni’r gofyniad ar gyfer 2012, ond yn y rhwydweithiau eraill, mae bron pob un o’r ysgolion yn gwneud hynny. Mewn un rhwydwaith, mae llai na hanner yr ysgolion yn bodloni gofyniad 2012 ar hyn o bryd.

31 Mewn llawer o ysgolion, mae’r ffaith fod mwy o gyrsiau galwedigaethol lefel 1 a lefel 2 ar gael wedi cyfrannu at welliannau mewn cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad. Mae’r tabl isod yn rhoi arwydd cynnar o effaith ehangu’r dewis yng nghyfnod allweddol 4 ar gyrhaeddiad.

| Cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 4[9] | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|
| Canrannau sy’n cyflawni trothwy lefel 2 | 55.0 | 58.0 | 60.2 |
| Canrannau sy’n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) a Mathemateg | 44.4 | 45.6 | 47.2 |
| Canrannau sy’n ennill pum cymhwyster TGAU, graddau A* i C | 54.2 | 55.8 | 57 |
| Gwahaniaeth pwynt canran rhwng trothwy Lefel 2 a phum cymhwyster TGAU, graddau A* i C | 0.8 | 2.2 | 3.2 |

[8] Trothwy Lefel 2 – pum cymhwyster TGAU, graddau A* i C a chymwysterau galwedigaethol lefel 2.
[9] Ystadegau Cenedlaethol ar Ganlyniadau Arholiadau a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, rhyddhawyd ar 26 Tachwedd 2009.

32 Mae'r gwahaniaeth rhwng y canrannau sy'n cyflawni trothwy lefel 2 a'r canrannau sy'n ennill pum cymhwyster TGAU, graddau A* i C wedi cynyddu o 0.8 pwynt canran yn 2007 i 3.2 pwynt canran yn 2009. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill cymwysterau ar lefel 2 mewn cymwysterau galwedigaethol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n cyflawni trothwy lefel 2 a'r rhai sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg wedi ehangu o ychydig dros ddeg pwynt canran yn 2007 i un deg tri phwynt canran yn 2009. Mae mwy o ddisgyblion yn cyflawni lefel 2, ond mae gormod nad ydynt o hyd yn ennill cymwysterau yn y pynciau allweddol, sef Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

33 Mae presenoldeb ac agwedd y lleiafrif o ddysgwyr sy'n cymryd rhan yn y cyrsiau galwedigaethol newydd wedi gwella oherwydd eu bod yn mwynhau eu cyrsiau ac nad ydynt yn dymuno colli eu lle arnynt. Mae'r dysgwyr hyn yn mwynhau elfennau gwaith y cyrsiau a bod yn rhan o dîm yn eu lleoliad cyflogaeth.

34 Mae bron pob un o'r cwricwla lleol yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnwys cyrsiau cydweithredol a gynigir gan fwy nag un darparwr sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae cyrsiau galwedigaethol cydweithredol yng nghyfnod allweddol 4 yn tueddu i fod yn y parth 'mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg', a'r parth 'gwasanaethau i bobl'. Ehangwyd nifer y cyrsiau adeiladu, cynnal a chadw cerbydau, peirianneg, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau salon. Prin yw'r cyrsiau galwedigaethol yn y parth 'busnes a rheoli' o hyd, ac nid oes digon o gyfle ar gyfer dilyniant yn y parth hwn.

35 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn cydweithio gyda sefydliadau addysg bellach a dim ond rhai ysgolion sy'n cydweithio gydag ysgolion eraill. Pan fydd disgyblion yn dewis cyrsiau cydweithredol, yn aml, mae angen iddynt deithio i'w mynychu. Cynhelir y rhan fwyaf o gyrsiau cydweithredol ar ddiwrnod penodol ac mae llawer o ddysgwyr yn colli gwersi yn y craidd dysgu neu'r cyrsiau eraill y maent wedi'u dewis. Mae llawer o ysgolion yn cymryd hyn i ystyriaeth ac yn trefnu bod amser ar gael i ddysgwyr ddal i fyny gyda'r gwaith a gollwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n dilyn y cyrsiau hyn yn cael cymorth da. Mae rhai ysgolion yn neilltuo anogwyr dysgu ar gyfer y dysgwyr hyn i'w helpu i gwblhau eu gwaith a dal i fyny gyda'u gwaith arall yn yr ysgol. Fodd bynnag, pan nad yw ysgolion yn rhoi cymorth ychwanegol, mae dysgwyr yn cael eu rhoi dan anfantais, yn enwedig lle maent yn colli gwersi yn y pynciau craidd, sef Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth.

36 Mae llawer o ysgolion wedi datblygu partneriaethau gyda chyflogwyr neu ddarparwyr lleol dysgu yn y gwaith i gynnig llwybrau dysgu ar gyfer grwpiau bach o ddisgyblion nad yw'r cwricwlwm traddodiadol yn eu cymell. Mae'r llwybrau hyn fel arfer ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o adael addysg neu hyfforddiant yn un deg chwech oed. Mae llwybrau dysgu yn y gwaith lefel 2 hefyd ar gael mewn rhai ardaloedd, a llwyddodd mwyafrif y dysgwyr a gwblhaodd y cyrsiau hyn yn 2009 i gyflawni trothwy lefel 2.

37 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn awr yn dechrau cynllunio'r opsiynau y byddant yn eu cynnig yn dilyn arolwg dewis agored o ddiddordebau dysgwyr. Caiff

cyrsiau eu trefnu'n flociau wedyn ar sail y canlyniadau, ac yn gyffredinol, maent yn cynnwys cymysgedd o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod wedi gallu dewis y cyrsiau roeddent eisiau. Mae rhai ysgolion yn cynnig dewis cwbl rydd o'r cyrsiau y gallant eu cynnig ac maent yn llunio amserlenni ar gyfer disgyblion unigol ar sail eu dewisiadau.

38 Mae angen cyfleusterau arbenigol drud neu leoliadau dysgu yn y gwaith ar gyfer llawer o'r cyrsiau cydweithredol, fel Tystysgrif Lefel 2 IMIAL[10] mewn Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau (sydd gyfwerth â throthwy lefel 2 neu bum cymhwyster TGAU, gradd A* i C). Fodd bynnag, mae ysgolion a chydlynwyr rhwydwaith yn bryderus ynglŷn â chynaliadwyedd y cyrsiau hyn unwaith y daw'r cyllid i ben. Bydd bron pob un o'r ysgolion yn parhau i gynnal y rhan fwyaf o'r cyrsiau y maent yn eu cynnig eu hunain hyd yn oed pan fydd cyllid y grant 14-19 yn dod i ben. Anaml y mae angen cyfleusterau arbenigol ar gyfer y cyrsiau hyn, gellir eu staffio o fewn adnoddau presennol ac nid ydynt yn ddibynnol ar barhad y cyllid grant.

**Cynnydd yn y sector ôl-16**

39 Ym mhob rhan o Gymru, gall dysgwyr ôl-16 ddewis o nifer ac ystod eang iawn o gyrsiau, ar yr amod eu bod yn barod i symud i sefydliad arall i astudio. Mewn llawer o ardaloedd, fodd bynnag, os ydynt yn penderfynu aros yn y chweched dosbarth yn eu hysgol, mae eu dewis yn aml yn gyfyngedig.

40 Nid yw ysgolion bob amser yn rhoi cyngor diduedd i ddysgwyr pan fyddant yn dewis eu hopsiynau. Mae llawer o ysgolion sydd â darpariaeth chweched dosbarth yn amharod i gydweithio gyda darparwyr eraill oherwydd pryderon dros y golled bosibl mewn niferoedd yn y chweched dosbarth. Mae rheolwyr yn ofni y byddai colli niferoedd yn effeithio ar gyllid y pen a byddai hyn yn lleihau eu gallu i gadw athrawon.

41 Mae bron pob un o'r dysgwyr chweched dosbarth yn dweud eu bod yn dewis astudio yn yr un ysgol oherwydd eu bod yn adnabod y staff ac yn dymuno aros lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r dysgwyr hyn yn barod i gyfaddawdu ar eu dewis o gyrsiau er mwyn aros yn y chweched dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y coleg yn ei ddewis oherwydd bod arddull y dysgu yn addas ar eu cyfer ac maent yn dymuno dilyn cyrsiau galwedigaethol arbenigol. Mae rhai dysgwyr yn dewis y coleg am nad yw eu hysgol yn cynnig y posibilrwydd o ddilyniant o'u cyrsiau blaenorol.

42 Mae llawer o'r ysgolion hyn yn cynnig cyrsiau sy'n denu niferoedd bach iawn o ddysgwyr yn unig. Mae'r rhain yn aml yn cynrychioli defnydd aneffeithlon o adnoddau, yn enwedig lle mae'r cyrsiau sy'n dyblygu'r ddarpariaeth ar gael rhywle arall yn nalgylch y rhwydwaith. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n gallu bodloni gofynion ôl-16 y Mesur ar eu pen eu hunain. Ysgolion mawr gyda chweched dosbarth mawr yw'r rhain fel arfer. Fodd bynnag, ni fydd y rhan fwyaf o ysgolion yn gallu darparu digon o ddewis yn y sector ôl-16 ar gyfer dysgwyr ar eu pen eu hunain. Ni all y rhan fwyaf ddarparu cyrsiau galwedigaethol sydd angen cyfleusterau arbenigol.

---

[10] IMIAL IMI Awards Limited yw'r corff dyfarnu arweiniol ar gyfer y diwydiant moduron adwerthu.

43 Yn 2008, dywedodd Estyn mai cyfyngedig oedd y cydweithio yn y sector ôl-16 rhwng ysgolion a cholegau, a rhwng ysgolion ac ysgolion, a bod hyn yn parhau i fod yn wir. Nid yw cynlluniau cydweithio wedi cael eu datblygu'n llawn o hyd yn y mwyafrif o ardaloedd. Mewn llawer o ardaloedd, mae darparwyr yn disgwyl penderfyniadau ar gynlluniau trawsnewid ardaloedd lleol sy'n debygol o arwain at newidiadau sylfaenol yn nhrefniadaeth addysg ôl-16.

44 Mewn rhai ardaloedd, mae darparwyr wedi dechrau mynd i'r afael â'r angen i gael gwared ar ddarpariaeth sydd wedi'i dyblygu er mwyn rhyddhau staff ac adnoddau, a datblygu cyrsiau newydd ychwanegol. Yn yr achosion hyn, mae darparwyr yn aml wedi cytuno ar drefniadau ariannu a llywodraethu, maent yn rhannu amserlenni ac wedi gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer cefnogi dysgwyr. Yn y trefniadau cydweithredol hyn, mae darparwyr yn rhannu addysgu cyrsiau.

**Materion cyffredin yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16**

45 Yn 2008, dywedodd Estyn fod angen i arweinwyr fod yn barod i gyfaddawdu, rhoi'r gorau i'w hymreolaeth a dangos mwy o ymddiriedaeth yn ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion 11-18 yn cydnabod bod angen cydweithio i sicrhau hawl y dysgwr, ond maent hefyd yn awyddus i gadw eu dysgwyr a'r canlyniad yw eu bod yn annog dysgwyr i beidio â dewis opsiynau mewn darparwyr eraill. Yn 2008, fe ddywedom ni fod tensiwn rhwng yr angen i gydweithio, a'r trefniadau ariannu a llywodraethu sy'n canolbwyntio ar ddarparwyr annibynnol, unigol. Er 2008[11], gall colegau addysg bellach ac ysgolion, ac ysgolion gydag ysgolion eraill, gydweithio'n ffurfiol trwy sefydlu cydbwyllgorau. Fodd bynnag, nid oes trefniadau o'r fath wedi cael eu gwneud eto.

46 Mae rhai ysgolion yn amharod o hyd i gynyddu'r cydweithio oherwydd gallai arwain at gael gwared ar gyrsiau, yn enwedig y rhai sy'n denu niferoedd bach o ddysgwyr. Felly, gall y cydweithio arwain at golli staff sydd wedyn yn cael effaith ar gyrsiau mewn cyfnodau allweddol eraill o ganlyniad. Mae rhai ysgolion yn ofni y gall niferoedd llai o ddysgwyr aros yn eu hysgol adeg ôl-16 os caniateir i niferoedd mawr o ddysgwyr ddilyn cwrs mewn ysgolion eraill neu golegau yng nghyfnod allweddol 4. Mae rhai o'r ysgolion hyn yn honni ei bod yn anodd sicrhau ansawdd pan fydd y ddarpariaeth yn rhywle arall ac y byddai'n well ganddynt i ddysgwyr ddilyn pob un o'u cyrsiau yn eu hysgol. Yn yr achosion hyn, mae'r ysgol yn mynd ati'n weithredol i annog dysgwyr i beidio â dewis cyrsiau a gynigir mewn darparwyr eraill.

47 Mae nosweithiau opsiynau cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn parhau i ganolbwyntio bron ar draul popeth ar yr hyn y mae'r ysgol yn ei ddarparu ac nid beth sydd ar gael yn rhywle arall. Mewn rhai rhwydweithiau 14-19, caiff llyfrynnau opsiynau cyffredin eu llunio gan bob darparwr, ac mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o Gyrfa Cymru Ar-lein[12] wrth ddewis cyrsiau. Yn y rhwydweithiau hyn, mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth a chyngor addas wrth gynllunio eu llwybr dysgu. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod gyda thiwtoriaid, ymgynghorwyr gyrfaoedd, anogwyr dysgu a staff y coleg, a chael sesiynau

[11] Adran 166 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.
[12] Gwefan Gyrfa Cymru lle gall dysgwyr ddewis eu hopsiynau.

rhagflas ar gyfer cyrsiau cydweithredol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn rhoi cyngor diduedd i ddysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 neu gyfnod allweddol 4.

48 Mae cost, ymrwymiad amser a chymhlethdod cludo dysgwyr i ddarparwyr eraill yn rhwystrau ymarferol rhag cydweithio a rhesymoli cyrsiau. Mae llawer o rwydweithiau yn archwilio ffyrdd eraill o gynnig cyrsiau ar y cyd, sy'n cynnwys dysgu o bell gan ddefnyddio amgylcheddau dysgu rhithwir, fideo gynadledda a thiwtoriaid yn teithio rhwng safleoedd. Megis dechrau datblygu y mae'r trefniadau hyn ar y cyfan, ac ychydig o arfarnu fu o ran eu heffeithiolrwydd neu o ran sut gallant wella gwerth am arian.

**Cynllunio darpariaeth gydweithredol**

49 Prin yw'r arfarnu o ran cost effeithiolrwydd y ddarpariaeth gydweithredol yn gyffredinol. Mae setiau data cyffredin ar gyrhaeddiad, cyflawniad, presenoldeb, cyfraddau gwaharddiadau a chyfraddau cwblhau a chadw ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn rhoi darlun dibynadwy a dilys o'r ddarpariaeth ar draws partneriaid neu sectorau. Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr wedi sefydlu systemau olrhain mewnol i fonitro cynnydd dysgwyr ar gyrsiau cydweithredol, nid oes gan rwydweithiau systemau eto sy'n gallu arfarnu effaith y ddarpariaeth gydweithredol.

50 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu dangosyddion ansawdd ar gyfer arfarnu darpariaeth cyrsiau cydweithredol a fframwaith hunanasesu ar gyfer rhwydweithiau 14-19. Mae'r rhan fwyaf o rwydweithiau 14-19 yn dechrau cynllunio sut i arfarnu ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth gydweithredol. Mae hyrwyddwyr ansawdd ar waith ym mhob rhwydwaith ac mae pob rhwydwaith wedi sefydlu fframwaith ansawdd a phrotocolau ar gyfer cydweithio.

51 Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o gynlluniau rhwydwaith 14-19 sy'n cynnwys ystod o ddatblygiadau ar gyfer y sector ôl-16, tra bo'r mwyafrif yn canolbwyntio ar ymestyn ystod y cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud yn bennaf â sut bydd grantiau'r Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol yn cael eu defnyddio, ac nid ydynt yn cynnwys datblygiadau y telir amdanynt trwy gyllid prif ffrwd ac maent felly yn rhoi darlun cyffredinol o ddatblygiadau. O ganlyniad, ychydig o'r cynlluniau hyn sy'n canolbwyntio digon ar ddatblygiadau ôl-16.

52 Mewn llawer o ardaloedd, mae ystod sy'n ehangu o bartneriaid yn cael eu cynnwys yn briodol yn y rhwydwaith. Mae gwasanaethau gyrfaoedd, gwasanaethau ieuenctid, grwpiau gwirfoddol, darparwyr hyfforddiant ac eraill yn dod yn fwyfwy pwysig wrth sicrhau bod pob agwedd ar Lwybrau Dysgu 14-19 yn cael ei rhoi ar waith.

53 Mae bron pob rhwydwaith 14-19 yn gweithio gyda grwpiau cynllunio trawsnewid i ystyried darpariaeth ôl-16. Mae'r rhan fwyaf yn cynllunio consortia lleol wedi'u seilio ar agosrwydd daearyddol neu anghenion iaith. Mae lleiafrif ohonynt yn ystyried cau chweched dosbarth ysgolion a symud i ddarpariaeth drydyddol.

### Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

54 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bodloni gofynion band y Mesur yng nghyfnod allweddol 4. Er hynny, mewn llawer o rannau o Gymru, nid oes digon o gyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg o hyd, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd angen cyfleusterau arbenigol. Yn ychwanegol, mae meintiau dosbarth yn y sector ôl-16 yn aml yn fach mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae llai o le ar gyfer rhesymoli a chydweithio nag yn y sector cyfrwng Saesneg.

55 Mae darparu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 yn her fawr, ac mae dilyniant yn anodd ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gallu cynnig cyrsiau galwedigaethol sydd angen staff ac offer arbenigol, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn rhy bell i ffwrdd i rannu darpariaeth. Yn aml, nid oes tiwtoriaid Cymraeg sy'n ddigon hyderus i gyflwyno'r cyrsiau hyn yn Gymraeg mewn colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith sydd â'r cyfleusterau.

56 Mae rhai darparwyr yn mynd i'r afael â'r broblem hon trwy weithio ar draws mwy nag un rhwydwaith 14-19. Er enghraifft, yn Ynys Môn a Gwynedd, mae cynllunio ar y cyd yn digwydd rhwng y ddau awdurdod lleol. Yng ngogledd Cymru, mae Cynnal[13] yn cydlynu datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg, amgylcheddau dysgu rhithwir ac opsiynau dysgu o bell ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae dau grŵp cyfrwng Cymraeg arall yn ne ddwyrain a de orllewin Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn hwyluso gweithio ar draws ffiniau yn rheolaidd.

### Dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a dysgu anffurfiol

57 Mae bron pob ysgol a choleg yn cynnig ystod eang o weithgareddau dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a gweithgareddau dysgu anffurfiol i ddysgwyr 14-19. Mae'r ddarpariaeth hon yn nodwedd dda neu ragorol mewn llawer o ysgolion a cholegau. Mae pob un o'r dysgwyr yn dweud bod eu darparwr yn cynnig ystod amrywiol a diddorol o gyfleoedd y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol.

58 Mae bron pob ysgol a choleg yn cynnig gweithgareddau sydd heb fod yn ffurfiol fel Gwobr Dug Caeredin, ASDAN[14], Gwirfoddolwyr y Mileniwm[15], Rhwydwaith y Coleg Agored[16], tystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r rhain yn aml yn cysylltu â phrofiadau sydd â ffocws gwaith neu bynciau penodol, fel arlwyo.

59 Mae bron pob un o'r darparwyr yn cynnig profiadau dysgu anffurfiol amrywiol a diddorol i'r dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau gweithredu cymunedol, cymdeithasau trafod, cynghorau ysgol a myfyrwyr, eco-bwyllgorau,

[13] Cynnal sy'n darparu'r gwasanaeth ymgynghorol ar gyfer awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn.
[14] Mae rhaglenni dyfarnu a chymwysterau ASDAN yn achredu addysg bersonol a chymdeithasol, datblygu medrau a gweithgareddau cyfoethogi.
[15] Menter ledled y DU sydd wedi'i chynllunio i hyrwyddo a chydnabod gwirfoddoli ymhlith pobl ifanc 16-25 oed yw Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
[16] Erbyn hyn, mae 'Agored Cymru' yn cynnig cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaeth.

digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon ac ymweliadau. Rhoddir blaenoriaeth uchel i'r gweithgareddau hyn oherwydd bod darparwyr yn annog cyfranogiad fel rhan o lunio ffeiliau cynnydd, ar gyfer datblygu curriculum vitae da neu ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

60 Mae gan ysgolion a cholegau gysylltiadau da iawn gyda phartneriaid fel sefydliadau gwirfoddol, partneriaethau addysg a busnes, grwpiau cymunedol, gwasanaethau tân ac achub, Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieuenctid i ymestyn ymhellach yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn eu hardal.

61 Mae gweithgareddau dysgu sydd heb fod yn ffurfiol a gweithgareddau dysgu anffurfiol yn werthfawr iawn mewn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh, ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd, darparu profiadau dysgu amgen ar gyfer dysgwyr llai abl a chynnig gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer y dysgwyr mwy abl a dawnus.

## Llwybrau Dysgu: y craidd dysgu

62 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau ddarpariaeth sefydledig ar gyfer y craidd dysgu. Mae mwy a mwy o ysgolion a cholegau yn cynnig Bagloriaeth Cymru oherwydd eu bod yn credu bod y gofynion ar gyfer y craidd dysgu yn cyfateb i ofynion Bagloriaeth Cymru. Yn y sector ôl-16, gall dysgwyr mewn llawer o ysgolion a cholegau ddilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae hyn wedi dod yn fwyfwy poblogaidd gyda dysgwyr gan fod mwy o ddarparwyr yn ei gynnig, ac mae cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch wedi dod i'w werthfawrogi. Mae nifer gynyddol o ysgolion hefyd yn cynnig Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Disgwylir i nifer y canolfannau sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru godi o 167 i 217 ym Medi 2010, sy'n golygu y bydd y dyfarniad ar gael i amcangyfrif o 7,000 o ddysgwyr ychwanegol. Mae llawer o ddarparwyr nad ydynt yn ei gynnig yn bwriadu gwneud hynny.

63 Pan nad yw darparwyr yn cynnig Bagloriaeth Cymru, mae darparwyr yn gwneud cynnydd da o hyd wrth ddatblygu'r rhan fwyaf o'r craidd dysgu gan fod llawer ohono'n adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys y ddarpariaeth sy'n statudol yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, nid yw medrau Cymraeg, yn enwedig yn y sector ôl-16, medrau allweddol a phrofiad â ffocws gwaith, yn cael eu cwmpasu cystal.

64 Yn aml, nid yw pob rhan o'r craidd dysgu ar gael i'r nifer fach o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn y llwybrau dysgu sy'n cynnwys lleoliadau gwaith estynedig neu raglenni amgen eraill. Y rheswm am hyn yw eu bod yn colli diwrnodau yn yr ysgol i fynychu lleoliadau neu goleg ac nid oes darpariaeth iddynt ddal i fyny â'r gwaith a wnaed yn y gwersi y gwnaethant eu colli.

### Medrau – medrau allweddol, medrau Cymraeg a medrau eraill yn gysylltiedig â gwaith

65 Mae darparwyr sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru yn cyflwyno ei chydran medrau trwy gyfuniad o wersi Bagloriaeth Cymru dynodedig a gwersi mewn pynciau eraill. Mewn mwyafrif o'r darparwyr hyn, mae dysgwyr yn cael rhwng dwy a saith gwers Bagloriaeth Cymru awr o hyd bob pythefnos. Mae'r gwersi hyn yn cwmpasu medrau allweddol; Cymru, Ewrop a'r Byd; addysg bersonol a chymdeithasol; ac ymchwilio annibynnol. Mae llawer o ddarparwyr yn cynllunio cyflwyno medrau allweddol ar draws y cwricwlwm ac yn defnyddio gwersi Bagloriaeth Cymru i gasglu'r portffolios medrau allweddol sydd eu hangen ar ddysgwyr i ennill cymwysterau medrau allweddol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector ôl-16.

66 Yn aml, nid yw darparwyr nad ydynt yn cynnig Bagloriaeth Cymru yn datblygu medrau allweddol yn ddigon systematig ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau cyffredinol. Nid yw'r darparwyr hyn wedi mapio'r ddarpariaeth medrau allweddol ar draws y cwricwlwm a phrin yw'r dysgwyr sy'n ennill y cymwysterau medrau allweddol.

67 Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob ysgol cyfrwng Saesneg yn darparu medrau Cymraeg trwy ddarpariaeth Cymraeg ail iaith orfodol fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, er bod safonau mewn Cymraeg ail iaith yn aml yn

isel. Yn y sector ôl-16, ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg, oni bai bod Cymraeg yn rhan o Fagloriaeth Cymru.

68 Mae darparwyr yn cynnig ystod dda o weithgareddau menter a phrofiadau â ffocws gwaith sy'n helpu datblygu medrau yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer bron pob dysgwr 14-19. Mae darparwyr fel arfer yn cyflwyno'r rhain mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, Gyrfa Cymru a phartneriaethau addysg a busnes. Mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno'r elfen hon o'r craidd dysgu yn y gwersi a nodwyd ar gyfer Bagloriaeth Cymru neu addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal digwyddiadau penodol lle caiff amserlen yr ysgol ei gohirio. Mae'r digwyddiadau 'menter' neu 'ffocws' hyn yn cael eu croesawu'n dda gan ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth - Cymru, Ewrop a'r Byd; materion personol, cymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd; ac addysg ac arweiniad ar yrfaoedd**

69 Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr wersi wedi'u hamserlennu mewn addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd a gyrfaoedd, ac mae'r rhain yn ymdrin ag ystod briodol o destunau ar gyfer yr agwedd hon ar y craidd dysgu. Mae dysgwyr yn mwynhau ac yn elwa o'r rhaglenni y mae darparwyr yn eu cynllunio'n dda ac yn eu haddysgu'n effeithiol. Mae dysgwyr mewn rhai o'r darparwyr yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn elwa llawer o'r rhan hon o'u cwricwlwm, yn enwedig os yw'n rhan o raglen Bagloriaeth Cymru.

70 Mae darpariaeth dda ar gyfer Cymru, Ewrop a'r Byd, a chynaliadwyedd, yn y darparwyr hynny sy'n cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae dysgwyr yn ymgymryd â phrosiectau wedi'u seilio ar ddinasyddiaeth neu wleidyddiaeth. Mae'r ddarpariaeth yn wan lle nad yw'r cymhwyster yn cael ei gynnig.

71 Mae cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ar gael ym mhob darparwr. Mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru yn gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr ac yn cynnig o leiaf un cyfweliad gyrfaoedd i bob dysgwr yn ystod cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Roedd bron pob un o'r dysgwyr a gafodd eu cyfweld yn gwybod sut i gael gafael ar gyngor gyrfaoedd, er nad oedd rhai wedi mynychu cyfweliad gyrfaoedd.

**Agweddau a gwerthoedd – parch atoch chi eich hun, at eraill ac at amrywiaeth, a chyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd**

72 Mae bron pob ysgol a choleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn annog dysgwyr i gymryd rhan mewn cynghorau ysgol, eco-bwyllgorau, gwirfoddoli, codi arian ar gyfer elusennau a mentora cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn gwneud llawer i annog dysgwyr i herio bwlio, hiliaeth ac agweddau gwrthgymdeithasol. Mae llawer ohonynt yn datblygu rhaglenni priodol i wella medrau cymdeithasol ac emosiynol. Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i roi cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd ag ystod helaeth o gyfrifoldebau. Caiff dysgwyr eu hannog yn llwyddiannus i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill.

**Profiadau cyffredin – profiad â ffocws gwaith, cyfranogiad cymunedol, a gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol**

73 Mae agwedd profiadau cyffredin y craidd dysgu yn nodwedd dda bron ym mhob ysgol a choleg. Mae'r rhan fwyaf yn darparu digwyddiadau penodol ar gyfer profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith a chyfranogiad cymunedol, pan fydd darparwyr yn gohirio'r amserlen am rhwng un a phum niwrnod. Mae ystod eang o gyfleoedd diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol ar gael hefyd, a llawer yn cael eu darparu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn yn fawr.

74 Mae rhai enghreifftiau arloesol o ymgysylltiad ysgolion a cholegau gyda chyflogwyr. Mae'r enghreifftiau hyn yn aml wedi'u cysylltu â chyrsiau galwedigaethol sy'n cynnwys profiad neu gyrsiau yn y gwaith a gyflwynir gan gyflogwyr neu ddarparwyr hyfforddiant. Mae llawer o ddarparwyr yn trefnu digwyddiadau lle mae cyflogwyr lleol yn gweithio gyda dysgwyr ar weithgareddau menter. Er bod y rhain yn datblygu medrau a gwybodaeth am fyd gwaith yn effeithiol, maent yn llai effeithiol fel profiad â ffocws gwaith oherwydd nad ydynt wedi'u lleoli mewn gweithle, ac nid ydynt felly'n rhoi teimlad go iawn i ddysgwyr o sut beth yw bod yn y gweithle.

75 Mae'n anodd bodloni'r ddarpariaeth profiad â ffocws gwaith fel hawl i bob dysgwr mewn rhai ardaloedd. Mae hyn fel arfer yn digwydd mewn ardaloedd lle mae cyflogwyr yn brin neu'n amharod i dderbyn dysgwyr ar leoliadau byr, er enghraifft, mewn lleoliadau gwledig neu ble mae economi leol ddirwasgedig. Mae angen cymhwyso gofalus a thrylwyr o ran rheoliadau iechyd a diogelwch, rheolau ar asesu risg a'r gofyniad am wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, ond mae hefyd angen osgoi biwrocratiaeth ddiangen a allai rwystro ymgysylltiad pellach gan gyflogwyr.

76 Mae llawer o ysgolion yn gofyn i ddysgwyr fynd ar brofiad gwaith yng nghyfnod allweddol 4, er nad yw lleiafrif o ysgolion yn gallu dod o hyd i leoliadau ar gyfer pob dysgwr. Yn y sector ôl-16, nifer fach o ysgolion yn unig sy'n gwneud profiad gwaith yn orfodol i bob dysgwr. Hyd yn oed pan fydd profiad gwaith ar gael, mae dysgwyr yn aml yn teimlo ei fod yn amhriodol ar gyfer eu hanghenion. Y rheswm am hyn yw bod dysgwyr eisiau profiad gwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u diddordebau gyrfa neu lwybr dysgu, ac ni all ysgolion ddarparu'r cyfle hwn bob tro. Mae llawer o gyrsiau galwedigaethol yn cynnwys elfen lleoliad gwaith ac felly mae profiad gwaith yn aml yn llai o broblem i ddysgwyr mewn colegau addysg bellach.

## Atodiad

### Rhoi Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar waith yng nghyfnod allweddol 4

Dilyniant yn nifer yr opsiynau y mae angen eu cynnig wrth symud tuag at yr hawl leiaf lawn ar gyfer cyfnod allweddol 4 erbyn 2012.

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| **Band A**<br>Blaenau Gwent<br>Caerffili<br>Caerdydd<br>Sir Ddinbych<br>Sir Fynwy<br>Casnewydd<br>Abertawe<br>Bro Morgannwg<br>Wrecsam | 28 (4) | 30 (5) | 30 (5) | 30 (5) |
| **Band B**<br>Sir Gaerfyrddin<br>Castell-nedd Pot Talbot<br>Sir Benfro<br>Rhondda Cynon Taf<br>Torfaen | 26 (4) | 28 (4) | 30 (5) | 30 (5) |
| **Band C**<br>Ynys Môn<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Ceredigion<br>Conwy<br>Sir y Fflint<br>Gwynedd<br>Merthyr Tudful<br>Powys | 24 (3) | 26 (4) | 28 (4) | 30 (5) |

Mae’r rhif mewn cromfachau yn dangos nifer y cyrsiau y mae’n rhaid iddynt fod yn alwedigaethol.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sue Halliwell AEM | Awdur |
| Catherine Evans AEM | Aelod o dîm yr arolwg |
| Jackie Gapper AEM | Aelod o dîm yr arolwg |
| Jan Waldron AY | Aelod o dîm yr arolwg |